Swansea University | Prifysgol Abertawe
Hillary Rodham Clinton School of Law | Ysgol y Gyfraith

# LLM mewn Hawliau Dynol, Prifysgol Abertawe

## Neges gan yr Athro Simon Hoffman, Cyfarwyddwr Rhaglen, LLM Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Abertawe.



"Hoffwn eich cyflwyno i'n tîm o arbenigwyr hawliau dynol sy'n addysgu modiwlau gorfodol neu ddewisol* ar ein cwrs LLM Hawliau Dynol. Isod fe welwch chi bwt o wybodaeth am bob aelod o'r tîm a dolen i'w proffil ar-lein os hoffech chi ddarllen mwy.

Am ragor o wybodaeth am yr LLM, mae croeso i chi anfon e-bost ataf yn s.hoffman@swansea.ac.uk

Os hoffech siarad ag un o'r tîm am eu maes arbenigol, yna mae croeso i chi anfon e-bost atynt. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriadau e-bost ar eu proffiliau.

Rydw i hefyd wedi cynnwys ambell ddolen ar ddiwedd y ddogfen sy'n eich cyfeirio at gyhoeddiadau diweddar gan rai o'n tîm. Rydw i wedi cynnwys dolenni i bapurau academaidd, ond hefyd i adroddiadau ymchwil sydd ar gyfer ymarferwyr. Bydd hyn yn rhoi blas i chi ar ehangder yr ymchwil ymhlith ein Tîm, a'i heffaith."

*Mae modiwlau dewisol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Cyflwynir rhai modiwlau dewisol gan gydweithwyr o adrannau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth Cyfarfod â'r Tîm hon.*

# Cyfarfod â'n Tîm



## Dr Emma Borland

Mae Emma'n addysgu 'Hawliau Dynol, Lloches ac Ymfudo' fel modiwl dewisol ar yr LLM. Mae hi'n arbenigwraig academaidd ar loches ac ymfudo, ond mae ganddi hefyd dros chwe blynedd o brofiad fel cynghorydd mewnfudo achrededig yn arbenigo mewn achosion lloches. Mae Emma yn un o Ymddiriedolwyr Asylum Justice, sy'n gweithio i wella mynediad at gyfiawnder i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru. **Ewch i dudalen proffil Emma**



## Dr Sara Correia-Hopkins

Diddordebau ymchwil Sara yw trosedd ac erledigaeth yn y byd digidol, plismona, cyfraith dechnoleg a thechnoleg gyfreithiol, yn ogystal â moeseg data. Mae ganddi brofiad o ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol ac mae'n angerddol am fanteision gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a rhanddeiliaid i ddefnyddio manteision dulliau cymysg ac ymchwil ryngddisgyblaethol. Yn ei hamser hamdden, mae Sara'n gwirfoddoli gyda'r elusen Gymreig Asylum Justice. Mae Sara yn addysgu'r modiwl gorfodol Dulliau Ymchwil a Moeseg sy'n cynnwys y **podlediad Methods Café**, ewch i wrando! **Ewch i dudalen proffil Sara**



## Yr Athro Simon Hoffman

Mae ymchwil Simon yn canolbwyntio ar hawliau dynol rhyngwladol, yn arbennig hawliau cymdeithasol, a hawliau lleiafrifoedd, yn enwedig plant. Mae Simon yn Brif Ymchwilydd a Chyd-ymchwilydd profiadol ac mae wedi arwain ar nifer o brosiectau ymchwil ar hawliau dynol. Fe'i gwahoddwyd i gyflwyno ei ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol ac mae wedi rhoi tystiolaeth arbenigol ar hawliau dynol i'r Senedd ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Mae Simon yn gweithio'n agos gyda rhwydweithiau cyrff anllywodraethol i sicrhau newid, ac mae'n aelod o gyrff cynghori'r llywodraeth. Mae Simon yn addysgu'r modiwl gorfodol, Gweithredu Hawliau Dynol. **Ewch i dudalen proffil Simon**



## Yr Athro Karen Morrow

Mae diddordebau ymchwil Karen yn canolbwyntio ar agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar gyfranogiad y cyhoedd mewn cyfraith a pholisi amgylcheddol ac ar rywedd a'r amgylchedd. Mae wedi cyhoeddi'n helaeth ar amrywiaeth o faterion amgylcheddol mewn cyd-destunau cyfreithiol a rhyngddisgyblaethol. Roedd hi'n gyd-olygydd sefydlu y Journal of Human Rights and the Environment, ac e-gyfnodolyn yr IUCN. Mae'n un o sylfaenwyr ac yn rhan o dîm craidd y Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Astudio Hawliau Dynol a'r Amgylchedd (GNHRE). Mae Karen yn gwasanaethu ar fyrddau golygyddol yr Environmental Law Review a'r University of Western Australia Law Review. Mae Karen yn addysgu'r modiwl dewisol, Hawliau Dynol a'r Amgylchedd. **Ewch i dudalen proffil Karen**

# Cyfarfod â'n Tîm

## Yr Athro Helen Quane



Mae prif ddiddordebau ymchwil Helen yn ymwneud â materion natur normadol a strwythurol mewn cyfraith hawliau dynol rhyngwladol, yn arbennig, materion diogelu lleiafrifoedd, hunanbenderfyniad a'r rhyngweithio rhwng cyfundrefnau hawliau dynol byd-eang, rhanbarthol a chenedlaethol wrth ffurfio a gweithredu normau hawliau dynol. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar nifer o brosiectau ymchwil gan gynnwys un ar imiwnedd mewn achosion sifil ar gyfer artaith alldiriogaethol, ac un arall ar Gydnabyddiaeth y Wladwriaeth o Gyfraith Grefyddol: Ystyriaethau Egwyddor a Chanlyniad, yn ogystal ag ymchwil barhaus ar y rhyngweithio rhwng cyfraith grefyddol a normau hawliau dynol rhyngwladol yng Nghymdeithas Gwledydd De-ddwyrain Asia (ASEAN). Mae ymchwil Helen wedi'i chyhoeddi mewn cyfnodolion blaenllaw fel yr Oxford Journal of Legal Studies, Harvard Human Rights Journal, yr International and Comparative Law Quarterly, Virginia Journal of International Law a'r British Yearbook of International Law. Mae Helen yn addysgu'r modiwl gorfodol, Cyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol. **Ewch i dudalen proffil Helen**

## Dr Katy Vaughan



Mae ymchwil Katy yn canolbwyntio ar gyfraith a pholisi gwrthderfysgaeth ac effaith hyn ar ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol, gan bwysleisio pwysigrwydd strategaeth gwrthderfysgaeth effeithiol o barch at hawliau dynol. Mae ei hymagwedd at ymchwil wedi'i gwreiddio yn y gred mai'r ffordd orau o ateb yr heriau byd-eang hyn yw drwy gydweithredu â rhanddeiliaid ac mae'n ymgysylltu'n rheolaidd â llywodraethau, y diwydiant technoleg a chymdeithas sifil. Ar hyn o bryd, mae Katy yn un o Gyd-gadeiryddion y **Christchurch Call Advisory Network** y mae ei haelodau'n cynnwys cymdeithas sifil, y byd academaidd a'r gymuned dechnegol, gyda'r nod o roi cyngor i lywodraethau a'r diwydiant technoleg o fewn Cymuned Christchurch Call ar fynd i'r afael â chynnwys terfysgol ac eithafol treisgar ar-lein gan ar yr un pryd amddiffyn hawliau dynol a rhyngrwyd rydd, agored a diogel. Mae Katy yn addysgu'r modiwl dewisol, Hawliau Dynol a Therfysgaeth Ar-lein. **Ewch i dudalen proffi Katy**

## Yr Athro Jane Williams



Mae gyrfa Jane yn rhychwantu ymarfer preifat fel bargyfreithwraig yng Nghymru a Lloegr, gwaith cyfreithiol a hyfforddiant proffesiynol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae ei gwaith academaidd yn cynnwys ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a pholisi, a bu'n ganolog yn ymdrechion cymdeithas sifil i sicrhau deddfwriaeth ar hawliau'r plentyn yng Nghymru a sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru. Cyd-sefydlodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant yn 2012 ac mae wedi arwain prosiectau a ariannwyd gan grantiau i ddatblygu dulliau hawliau dynol o rymuso plant fel ymchwilwyr a chyfryngau er newid. Mae ei dyfeisiadau ym maes addysgu yn cynnwys cyflwyno modiwlau ar Gyfraith y Stryd a Dulliau Hawliau Dynol o Ymchwilio gyda Phlant. Mae Jane yn addysgu'r modiwl dewisol Hawliau Dynol Plant. **Ewch i dudalen proffi Jane**

# Rhai Cyhoeddiadau Diweddar

**Gallwch ddilyn y dolenni isod i gael mynediad at rai cyhoeddiadau diweddar gan y Tîm. Gellir cyrchu a lawrlwytho'r rhain yn rhad ac am ddim.**

Cynhaliodd yr **Athro Simon Hoffman** ymchwil ar gyfer yr European Network of Ombudsperson for Children ar effaith pandemig COVID 19 ar hawliau dynol plant ledled Ewrop. Arweiniodd hyn at 'Adroddiad Synthesis ENOC' ac argymhellion i amddiffyn hawliau plant mewn unrhyw bandemig yn y dyfodol. Gallwch weld yr adroddiad yma: "COVID-19: Learning for the Future" - ENOC

Mae'r **Athro Karen Morrow** wedi ystyried cydraddoldeb rhywiol yng nghyd-destun Cynhadledd y Partïon (CoP) diweddaraf Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (UNFCCC), CoP26. Mae materion cydraddoldeb rhywiol bellach yn cael eu cydnabod yn eang o fewn llywodraethu newid hinsawdd byd-eang, gan wneud cyfraniad parhaus ato. Er bod cydraddoldeb rhywiol yn fater byw ym maes llywodraethu hinsawdd byd-eang, mae ysgogi camau gweithredu sylweddol gan wladwriaethau i fynd i'r afael â'r mater yn parhau'n broblemus. Darllenwch erthygl Karen yma: Cop26 and Beyond: Participation and Gender

Mae gan yr **Athro Helen Quane** ddiddordeb mawr yn hawliau pobl frodorol. Os ydych chi'n rhannu'r diddordeb hwn, efallai yr hoffech chi lawrlwytho a darllen ei herthygl, 'A Further Dimension to the Interdependence and Indivisibility of Human Rights? Recent Developments Concerning the Rights of Indigenous Peoples (2012)' 25 Harvard Human Rights Journal 49-83, sydd ar gael yma: A Further Dimension to the Interdependence and Indivisibility of Human Rights?: Recent Developments Concerning the Rights of Indigenous Peoples

Arweiniodd **Dr Katy Vaughan** allbwn ymchwil ar gyfer y Global Internet Forum of Counter Terrorism's Legal Frameworks Working Group ar oblygiadau diffyg dull cydlynol o ddiffinio cynnwys terfysgol ar draws diffiniadau masnachol, cenedlaethol a rhyngwladol o derfysgaeth. Mae'r adroddiad yn nodi safonau ac argymhellion gofynnol ar gyfer y diwydiant technoleg wrth ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â chynnwys terfysgol. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma: GIFCT Report

Mae'r **Athro Jane Williams** yn aelod o dîm a ariennir gan Raglen Ymchwil Addysg ESRC 2021 - 26, sy'n ymchwilio i ddeddfu hawliau cyfranogol plant mewn dosbarthiadau ysgol gynradd is. Gallwch ddysgu mwy am y prosiect yma: Children's Participation Project. Yn ddiweddar, mae Jane hefyd wedi cyd-ysgrifennu astudiaeth ar effaith Covid 19 ar weithgareddau llais disgyblion mewn ysgolion. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma: Pupil Voice Report. Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd mewn erthygl a gyd-ysgrifennodd Jane sy'n ymdrin â'r her o integreiddio hawliau dynol (hawliau plant yn yr achos hwn) ochr yn ochr â datblygu cynaliadwy. Gallwch lawrlwytho'r erthygl hon yma: Integrating Sustainable Development and Children's Rights: A Case Study on Wales